Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

MAI 2009

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Prif ganfyddiadau **4**

Argymhellion **7**

Adran 1: Y graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion statudol **8**

Adran 2: Sut mae ysgolion yn monitro agweddau ar eu polisi a'u harfer **12**

Cwricwlwm 12

Trefniadau addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion lleiafrifoedd ethnig 15

Ymddygiad a chymorth bugeiliol 17

Monitro ac adrodd am achosion hiliol 19

Gwahardd disgyblion 21

Partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned leol 22

Adran 3: Sut mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr **24**

Monitro cyflawniad a chyrhaeddiad 24

Presenoldeb 26

Arweinyddiaeth ysgolion ac awdurdodau lleol 28

Cyfeiriadau

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Cyflwyniad

1 Cyhoeddir yr adroddiad cylch gwaith hwn i ymateb i gylch gwaith blynyddol Gweinidogion i Estyn ar gyfer 2008-2009 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cyngor yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae polisïau cydraddoldeb hiliol a chynlluniau gweithredu yn effeithiol wrth reoli arfer a sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd.

2 Mae'r adroddiad yn arfarnu effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion yn benodol o ran:

- y graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion statudol;
- sut mae ysgolion yn monitro agweddau ar eu polisi a'u harfer; a
- sut mae rheolwyr mewn ysgolion yn defnyddio gwybodaeth o fonitro i sicrhau canlyniadau gwell yn gymdeithasol ac yn academaidd ar gyfer grwpiau o ddysgwyr lleiafrifoedd ethnig.

3 Nodir arfer dda mewn nifer o astudiaethau achos yn yr adroddiad.

4 Cynhelir yr arfarniad yng nghyd-destun nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella safonau ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Amlinellir yr ymrwymiad yn 'Y Wlad sy'n Dysgu – Gweledigaeth ar Waith', sy'n amlygu pwysigrwydd datblygu polisi cynhwysiad a fframwaith perfformiad ar gyfer Cymru sy'n adeiladu ar ymagwedd ysgol gyfan a chymunedol i:

- ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol; a
- chyflwyno strategaeth ar gyfer cyflawniad lleiafrifoedd ethnig, gan sicrhau bod anghenion pob grŵp lleiafrifol yn cael eu diwallu.

5 Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- cyfarfodydd ag athrawon, penaethiaid a disgyblion mewn detholiad o 11 ysgol gynradd, dwy ysgol arbennig a 12 ysgol uwchradd ledled Cymru;
- cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr perthnasol o awdurdodau lleol;
- archwilio polisïau, cynlluniau datblygu a data cyrhaeddiad a ddarparwyd gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- chyfarfodydd gyda rhieni disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Cefndir

6 Mae dyletswydd gyfreithiol ysgolion a gynhelir yng Nghymru i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol wedi'i hamlinellu yn Neddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn hyn) wedi llunio canllaw ar gyfer cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir er mwyn eu cynorthwyo i fodloni gofynion y Ddeddf.

7 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion:

- hyrwyddo cyfle cyfartal;
- hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol; a
- chael gwared ar wahaniaethu hiliol.

8 Yn 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adroddiad yn dwyn y teitl 'Cyflawniad Disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru'. Roedd hwn wedi'i fwriadu, yn rhannol, i fonitro pa mor bell y mae ysgolion yn bodloni gofynion y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn amlinellu tystiolaeth glir o anghydraddoldeb cymdeithasol ac addysgol rhwng y grwpiau ethnig gwahanol a gynrychiolir mewn ysgolion yng Nghymru. Canfu'r adroddiad, er bod llawer o anghydraddoldeb hefyd yn gysylltiedig â chefndir economaidd gymdeithasol a lefelau addysg ymhlith rhieni, nid yw'r ffactorau hyn ar eu pen eu hunain yn cyfrif am y bwlch rhwng lefelau cyrhaeddiad y rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig bechgyn, a chyfartaleddau cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad er bod cyrhaeddiad disgyblion o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, fel y rheiny o darddiad Tsieineaidd, yn dda iawn, mae cyrhaeddiad disgyblion o grwpiau eraill, yn enwedig bechgyn o gefndiroedd Affro-Caribïaidd, yn is.

9 Tua'r un pryd yn 2003, cynhaliodd Estyn arolwg o'r enw 'Grant cyflawniad lleiafrifoedd ethnig (EMAG): defnydd effeithiol o adnoddau'. Mae'r adroddiad hwn yn argymell bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwella eu systemau ar gyfer cofnodi niferoedd y disgyblion lleiafrifoedd ethnig i sicrhau bod grant EMAG gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei ddyrannu'n gyson ac yn gywir. Mae'r adroddiad hefyd yn argymell hyfforddiant gwell ar gyfer staff sy'n gweithio gyda disgyblion lleiafrifoedd ethnig, er mwyn eu helpu i ddiwallu anghenion pob un o'r grwpiau, gosod targedau unigol gwell a monitro cyflawniad unigol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r ffaith fod angen i ysgolion gael polisïau clir ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol, polisïau ar gyfer cydraddoldeb hiliol a pholisïau ar gyfer addysg amlddiwylliannol.

10 Fel dilyniant i'r ddau adroddiad hyn, yn 2004-2005, cyhoeddodd Estyn arolwg ar 'Cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn ysgolion yng Nghymru'. Diben yr adroddiad hwn oedd edrych ar ba mor effeithiol yr oedd ysgolion yn defnyddio arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Canfu'r arolwg hefyd mai lleiafrif o ysgolion yn unig oedd wedi ymgorffori hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn eu bywyd a'u hethos bob dydd. Lle'r oedd cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo'n dda, roedd hyn yn bennaf mewn ysgolion sydd â niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig. Er bod gan bron bob

un o'r ysgolion bolisïau cydraddoldeb hiliol, dim ond atgynhyrchiad o'r polisïau model a ddarparwyd gan awdurdodau lleol oedd y rhain, ar y cyfan, nad oeddent wedi cael eu haddasu rhyw lawer, os o gwbl, i adlewyrchu amgylchiadau unigol yr ysgolion. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai awdurdodau lleol roi mwy o gymorth i ysgolion wrth iddynt addasu ac adolygu eu polisïau cydraddoldeb hiliol.

11 O ganlyniad i arolwg Estyn yn 2004-2005, cyhoeddodd Estyn 'Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a Saesneg fel iaith ychwanegol' yn ddiweddarach yn 2005. Mae'r arweiniad hwn yn rhoi cyngor manwl i arolygwyr ar sut i asesu ac adrodd ar ansawdd darpariaeth ysgolion ar gyfer disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn yr arolygiadau cylchol o ysgolion unigol. Mae'r arweiniad yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ysgolion gysylltu eu polisïau cydraddoldeb hiliol a'u cynlluniau gweithredu â chynlluniau datblygu ysgol. Mae hefyd yn bwysig adolygu effaith y camau a gymerir yn rheolaidd.

12 Cyn hir, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi arweiniad ychwanegol ar gyfer ysgolion ar sut i ddefnyddio cyfleoedd a gynigir gan y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig i hyrwyddo dealltwriaeth well o gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ddiwylliannol trwy ddull ysgol-gyfan cydlynus. Bydd y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad fel 'Undod mewn Amrywiaeth: hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ddiwylliannol yn y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig'.

13 Mae mewnlifiad sylweddol o ddisgyblion o wledydd Dwyrain Ewrop wedi dod i Gymru dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig i Sir Gaerfyrddin, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r mewnlifiad hwn wedi rhoi pwysau ar ysgolion ac awdurdodau lleol i gynyddu eu darpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae Estyn yn cynnal arolwg ar wahân yn 2008-2009 i edrych yn benodol ar y materion hyn. Bydd hyn yn arwain at adroddiad cyhoeddedig yn ddiweddarach yn 2009.

Prif ganfyddiadau

14 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad da ar gyfer pob un o'u disgyblion yn gyffredinol, a cheir rhai enghreifftiau o ddarpariaeth ragorol. Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ceisio trin disgyblion yn gyfartal ac yn deg, beth bynnag fo'u grŵp hiliol.

Bodloni gofynion statudol

15 Er bod polisïau cydraddoldeb hiliol gan y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, dim ond tua hanner yr ysgolion sydd wedi addasu'r rhain i adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol. Nid yw'r ysgolion eraill, yn bennaf lle mae niferoedd y disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn isel, yn ystyried y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu polisi cydraddoldeb hiliol ac arfer. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn wedi mabwysiadu polisïau model awdurdod lleol safonol heb unrhyw addasiadau. Nid oes gan rai o'r ysgolion hyn bolisi cydraddoldeb hiliol ar waith hyd yn oed.

16 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion sydd â nifer sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig gynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol hefyd. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth fel rhan o'u cenhadaeth. Mae cydraddoldeb hiliol yn rhan o ethos yr ysgolion hyn ac adlewyrchir hyn ym mywyd dyddiol pob ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion sydd ag ychydig iawn o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, os o gwbl, yn dweud nad yw cynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol yn berthnasol iawn iddyn nhw. Mae nifer sylweddol nad ydynt hyd yn oed yn ymwybodol o'r gofyniad iddynt gael cynllun o'r fath. Dim ond lleiafrif o'r ysgolion sydd â chynlluniau gweithredu ar gyfer cydraddoldeb hiliol sydd wedi'u cysylltu'n glir â thargedau a chamau yn eu cynlluniau datblygu ysgol.

Monitro polisi ac arfer

17 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o amrywiaeth, cydraddoldeb a hil mewn amrywiaeth o ffyrdd. Codir ymwybyddiaeth mewn gwasanaethau ysgol ac mewn gwersi, gan gynnwys y rheiny mewn addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol a gwersi pwnc eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol.

18 Mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu cefnogi'n dda mewn ysgolion ar y cyfan. Asesir anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, a darperir ar eu cyfer yn unigol. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn annog disgyblion i sefyll TGAU yn iaith eu cartref ond nid yw'r cyrsiau iaith gartref hyn ar gael bob amser.

19 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ystod o bolisïau a mesurau cadarnhaol ar waith i annog a gwobrwyo ymddygiad da a cheisio atal bwlio. Bron ym mhob ysgol, mae polisïau gwrth-fwlio yn cynnig gweithdrefnau clir ar gyfer delio ag achosion hiliol a'u cofnodi, ond yn ymarferol, nid yw nifer sylweddol o ysgolion yn cofnodi achosion hiliol ar wahân. Dengys cofnodion mai nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd oherwydd achosion sydd â chymhelliad hiliol.

20 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu cysylltiadau agos gyda rhieni a'r gymuned leol ac mae llawer o rieni disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill mewn ysgolion yn rheolaidd.

21 Cynrychiolir rhieni disgyblion lleiafrifoedd ethnig ar gyrff llywodraethol rhai ysgolion. Mewn ardaloedd sydd â chymunedau lleiafrifoedd ethnig mawr, caiff rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned eu cyflogi yn aml fel cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd ac athrawon.

Defnyddio gwybodaeth a gwella canlyniadau

22 Mae'r ysgolion i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynhwysiad a chydraddoldeb i'w hethos a'u cynlluniau. Fodd bynnag, nifer fach iawn o ysgolion sy'n olrhain cyflawniad a chyrhaeddiad eu disgyblion yn ôl grŵp lleiafrifoedd ethnig. Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn dweud bod llawer o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi'u cymell yn dda ac yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag, nifer fach o ysgolion yn unig sy'n casglu ac yn dadansoddi data ar berfformiad disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i ddangos hyn.

23 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu data ar berfformiad disgyblion yn ôl gwahanol grwpiau ethnig ac yn cyhoeddi'r manylion ar y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Ddisgyblion. Er gwaethaf hyn, prin yw'r ysgolion sy'n defnyddio'r data hwn i fonitro cyrhaeddiad eu disgyblion lleiafrifoedd ethnig eu hunain er mwyn nodi unigolion neu grwpiau o ddisgyblion y mae angen i'w perfformiad wella.

24 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn monitro presenoldeb pob un o'u disgyblion yn rheolaidd ac yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael. Mewn rhai ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, gwyliau estynedig i ymweld â theuluoedd yw'r prif reswm dros gyfraddau presenoldeb isel rhai disgyblion lleiafrifoedd ethnig. Yn yr ysgolion hyn, pan fydd disgyblion yn absennol am gyfnodau estynedig, darperir pecynnau gwaith yn aml ar gyfer disgyblion er mwyn galluogi rhywfaint o barhad iddynt yn eu hastudiaethau. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion eraill, ni wneir unrhyw drefniadau o'r fath.

25 Ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion, mae cymorth gan awdurdodau lleol ar gydraddoldeb hiliol fel arfer wedi'i gyfyngu i gynnig polisi model. Mae'r awdurdodau lleol hynny sydd â niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol yn rhoi mwy o gymorth ar ffurf hyfforddiant ar gyfer staff ar y materion sy'n wynebu ysgolion amlhiliol. O'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, dywed rhai nad yw awdurdodau lleol wedi rhoi arweiniad ar gydraddoldeb hiliol a datblygu polisïau ac nad oes unrhyw weithdrefnau ar waith i ysgolion adrodd am achosion hiliol. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau ychwaith yn defnyddio'r data a gasglwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyrhaeddiad academaidd yn ôl grŵp ethnig, er mwyn nodi ble mae tangyflawni ymhlith disgyblion lleiafrifoedd ethnig a'i unioni.

26 Dim ond mewn ysgolion lle mae niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig y rhoddir blaenoriaeth uchel i ddatblygu ymwybyddiaeth staff o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb trwy hyfforddiant. Yn yr ysgolion hyn, caiff hyfforddiant amrywiaeth ei ddarparu'n aml gan staff cymorth lleiafrifoedd ethnig arbenigol o'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw llawer o awdurdodau lleol eraill yn ystyried bod hyn yn flaenoriaeth iddynt ar hyn o bryd.

27 Er bod llawer o enghreifftiau o arfer dda i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol wedi cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn, mae llawer i'w wneud o hyd mewn llawer o awdurdodau lleol ac ysgolion ledled Cymru.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 atgoffa awdurdodau lleol am eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 i sicrhau bod gan ysgolion bolisïau cydraddoldeb hiliol a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol sy'n cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau datblygu ysgol a'u bod yn adrodd am achosion hiliol; a

A2 chefnogi datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer arholiadau iaith TGAU mewn ystod hyd yn oed yn ehangach o ieithoedd lleiafrifoedd ethnig.

Dylai awdurdodau lleol:

A3 roi mwy o gymorth er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu eu polisïau cydraddoldeb hiliol a chynlluniau gweithredu a rhoi systemau ar waith ar gyfer cofnodi ac adrodd am achosion hiliol;

A4 cynnig hyfforddiant i staff ysgol i'w helpu i ymgorffori cydraddoldeb hiliol ac arfer dda mewn perthynas ag amrywiaeth yng nghenadaeth ac arferion pob ysgol; a

A5 defnyddio'r data a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar berfformiad disgyblion yn ôl ethnigrwydd, i gymharu perfformiad pob grŵp o ddisgyblion yn eu hysgolion a gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Dylai ysgolion:

A6 sicrhau bod polisïau cydraddoldeb hiliol yn adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol;

A7 cynllunio a gweithredu mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol ac ystyried hyn mewn cynlluniau datblygu ysgol; a

A8 gwneud defnydd gwell o'r data a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro'r tueddiadau ym mherfformiad pob grŵp disgyblion ethnig a defnyddio'r wybodaeth hon i weithredu ar gyfer gwella.

28 Caiff pob un o 3, 4, 6 a 7, neu rannau ohonynt, eu nodi yn adroddiad 2005 Estyn, 'Cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn ysgolion yng Nghymru'.

Adran 1: Y graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion statudol

29 Er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisïau cydraddoldeb hiliol, dim ond tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw sydd wedi addasu'r rhain i fodloni eu hamgylchiadau penodol. Lle mae ysgolion wedi defnyddio modelau awdurdod lleol ar gyfer canllawiau polisi ond nad ydynt wedi addasu'r rhain mewn unrhyw ffordd, mae hyn yn tueddu i fod mewn ardaloedd lle nad oes gan ysgolion lawer o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, os o gwbl. Nid yw'r ysgolion hyn yn ystyried bod datblygu polisi cydraddoldeb hiliol ac arfer yn flaenoriaeth.

30 Mewn ysgolion lle mae niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig y mae polisïau awdurdod lleol wedi cael eu haddasu yn y ffordd fwyaf llwyddiannus i adlewyrchu amgylchiadau'r ysgol ei hun. Mae'r ysgolion hyn yn rhoi eu polisi mewn cyd-destun lleol ac yn rhoi cyfrifoldebau dynodedig i aelodau o'r staff ar gyfer gwahanol agweddau, fel ymchwilio i, ac adrodd am achosion hiliol a sicrhau cyfle cyfartal i bob un o'i disgyblion. Mae'r polisïau hyn yn adlewyrchu gwybodaeth yr ysgol am y cymunedau a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu ac maent wedi'u cysylltu'n agos â pholisïau eraill yr ysgol ar gyfle cyfartal, ymddygiad a bwlio.

31 Mewn rhai ysgolion ffydd, mae'r arweiniad gan yr awdurdodau esgobaethol hefyd wedi cael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer polisi, ar y cyd ag arweiniad a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol.

32 Mae llawer o awdurdodau lleol, ond nid pob un, yn darparu arweiniad polisi model ar gyfer ysgolion ynglŷn â bodloni gofynion statudol. Mewn pedwar awdurdod lleol lle ymwelwyd ag ysgolion, ni roddwyd unrhyw arweiniad o'r fath. Yn yr ardaloedd hyn, nid oes gan ysgolion bolisi neu maent wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o ffynonellau eraill i roi polisïau at ei gilydd sy'n mynd i'r afael â gofynion Deddf 2000.

33 Mae ysgolion sydd â niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig yn sicrhau pan fydd polisïau'n cael eu llunio, bod ymgynghori â chyfranogion a bod eu barn yn cael ei hystyried. Yn yr ysgolion hyn, ymgynghorir â staff hefyd ac mae barn disgyblion yn ffactor pwysig. Mae cyngor yr ysgol yn ystyried y polisi drafft ac mae aelodau yn rhoi sylwadau ar bolisïau ac yn helpu i'w diwygio. Mewn un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi, mae disgyblion yn trafod y polisi yn ystod sesiynau amser cylch ac yn cyfleu eu barn hefyd trwy holiadur a gynlluniwyd gan yr athro i gasglu eu barn ar faterion cydraddoldeb. Ymgorfforir sawl un o'u hawgrymiadau yn y polisi terfynol yn ddiweddarach.

34 Dangosir enghraifft arall o arfer dda wrth ddatblygu polisi cydraddoldeb hiliol yn yr astudiaeth achos isod.

Datblygu polisi cydraddoldeb hiliol

Cyd-destun: Ysgol gynradd mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf yw'r ysgol hon, gyda thua 200 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae dros 20% o'r disgyblion hyn yn sipsi deithwyr. Mae'r ysgol ar yr un safle â chanolfan ddysgu ar gyfer disgyblion sy'n sipsi deithwyr o oedran ysgol uwchradd.

Strategaeth: Mae'r ysgol yn mabwysiadu polisi cynhwysol ac yn anelu at ddiwallu anghenion dysgu pob un o'i disgyblion. Mae'r ysgol hon wedi llunio polisi cydraddoldeb hiliol sy'n bodloni gofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ac yn adlewyrchu cymeriad yr ysgol a'r gwaith a wna gyda'r disgyblion lleiafrifoedd ethnig sydd yn ei gofal a chyda'r gymuned i raddau helaeth.

Mae'r polisi yn amlinellu cyd-destun yr ysgol ac yn rhoi diffiniad clir o'r hyn y mae'r ysgol yn anelu at ei gyflawni. Diffinnir cyfrifoldebau ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys disgyblion, rhieni a'r gymuned.

Gweithredu a chanlyniadau: Dogfen waith yw hon sy'n cynnwys ystod o gwestiynau treiddgar a ddefnyddir yn rheolaidd i arfarnu arfer wirioneddol. Mae cwestiynau'n canolbwyntio ar fonitro ac arfarnu perfformiad disgyblion ac ar wrando ar farn disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr. Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn dylanwadu ar, ac yn rhoi arweiniad ar gyfer yr ysgol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

35 Yn yr ysgolion lle rhoddir blaenoriaeth uchel i gydraddoldeb hiliol, y rheiny sydd â niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig yn bennaf, caiff polisïau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod arfer yn ymateb i anghenion disgyblion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr hefyd yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau ac yn ymwneud yn weithredol â datblygu polisi. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle na roddir cymaint o flaenoriaeth i gydraddoldeb hiliol, caiff rolau llywodraethwyr eu cyfyngu'n bennaf i fabwysiadu'r polisi yn ffurfiol.

36 Dim ond mewn nifer fach iawn o ysgolion y mae rhieni yn gysylltiedig â datblygu polisi cydraddoldeb hiliol, er enghraifft, trwy gymdeithas rhieni ysgol.

37 Mae gan rai ysgolion bolisïau cydraddoldeb hiliol sy'n cael eu cyfuno â pholisïau eraill fel polisïau cyfle cyfartal neu bolisïau gwrth-fwlio. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn credu bod polisi cydraddoldeb hiliol ar wahân yn eithrio disgyblion lleiafrifoedd ethnig ac nid yw hyn yn cyd-fynd â'u hathroniaeth gynhwysol o sicrhau bod pob disgybl yn cael yr un hawliau a chyfleoedd.

38 Yn ogystal â pholisi cydraddoldeb hiliol, mae'n ofynnol bod gan ysgolion gynllun gweithredu ar waith i ddangos sut bydd cydraddoldeb hiliol yn cael ei ymgorffori yn eu bywyd a'u gwaith. Canfu adroddiad Estyn yn 2005 ar gyfle cyfartal mai ychydig iawn o ysgolion oedd â chynllun gweithredu ar waith ac argymhellodd y dylai ysgolion roi blaenoriaeth i ddatblygu'r maes hwn o'u harfer. Mae gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn yn cadarnhau nad yw hyn wedi newid rhyw lawer dros y pedair blynedd diwethaf. Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion gynllun gweithredu o hyd i ymgorffori eu polisi cydraddoldeb hiliol.

39 Dim ond lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw sydd â chynlluniau gweithredu cyfoes ar gyfer cydraddoldeb hiliol, sy'n adlewyrchu anghenion yr ysgol neu sydd wedi'u cysylltu â'r targedau yn eu cynlluniau datblygu ysgol. Mewn rhai ysgolion, nid yw cynllun a luniwyd sawl blwyddyn yn ôl wedi cael ei adolygu na'i ddiweddaru.

40 Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion lle nad oes unrhyw gynllun gweithredu ar wahân, mae materion cydraddoldeb yn rhan hanfodol o'r cynllun datblygu ysgol mewn modd priodol. Er enghraifft, mewn un ysgol gynradd sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion sy'n sipsi deithwyr, mae cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'r ffordd y mae'r ysgol gyfan yn gweithredu. Mae materion cydraddoldeb a chynhwysiad a thargedau i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yn amlwg ar draws cynllun datblygu'r ysgol, gyda chynnydd tuag at gyflawni'r rhain yn cael ei fonitro'n agos.

41 Mae un awdurdod lleol yn ne ddwyrain Cymru, lle mae gan sawl ysgol niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, wedi datblygu ei wobr cynhwysiad ei hun y gall ysgolion weithio tuag at ei hennill. I ennill y wobr, mae'n ofynnol i staff archwilio eu harfer a llunio cynllun gweithredu i sicrhau bod materion cynhwysiad yn cael blaenoriaeth a'u bod yn amlwg mewn cynlluniau datblygu. Mae hyn yn sicrhau, er enghraifft, bod cynlluniau gwaith a ddefnyddir i gynllunio gwersi yn y pynciau a addysgir, yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo pwysigrwydd deall amrywiaeth.

42 Yn y lleiafrif o ysgolion lle mae cynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol yn bodoli, caiff y rhain eu hadolygu yn rheolaidd ac mae ysgolion yn gwneud cynnydd da i gyflawni eu targedau. Yn y nifer fach o ysgolion lle nad oes unrhyw gynllun gweithredu ffurfiol ar waith ond bod materion cynhwysiad yn amlwg yn y cynllun datblygu ysgol, caiff cynnydd tuag at dargedau ei fonitro a'i adolygu yn ofalus. Fodd bynnag, mae ysgolion nad oes ganddynt lawer o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, os o gwbl, yn dweud nad yw cynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol yn berthnasol iawn iddyn nhw, ac nid yw nifer sylweddol hyd yn oed yn ymwybodol o'r gofyniad iddynt gael cynllun o'r fath ar waith.

43 Nid yw'r rhan fwyaf o benaethiaid yn rhoi copïau o'u polisïau cydraddoldeb hiliol i rieni. Mewn ysgolion sydd â niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, cyfeirir at bolisïau mewn gwybodaeth i rieni, fel y prosbectysau ysgol, a gellir cael copïau o'r ysgol, neu mewn rhai achosion, oddi ar wefan yr ysgol, os bydd eu hangen ar rieni.

44 Lle mae niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae gan ysgolion gysylltiadau agos iawn yn aml gyda rhieni'r disgyblion hyn a chaiff gwybodaeth ei chyfleu yn effeithiol trwy gyfarfodydd, yn enwedig lle mae dealltwriaeth rhieni o Gymraeg neu Saesneg ysgrifenedig yn gyfyngedig. Mewn nifer o ysgolion lle mae gan ddisgyblion anghenion iaith ychwanegol mewn Cymraeg neu Saesneg, mae gweithwyr cartref, sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol, yn gyfrwng cyfathrebu pwysig gyda rhieni.

45 Prin yw'r ysgolion sy'n cyfieithu eu polisïau i ieithoedd eraill er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i rieni, oherwydd y gost ychwanegol.

Mewn ysgolion lle ceir yr arfer orau ar gyfer bodloni gofynion statudol, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- mae polisïau cydraddoldeb hiliol yn adlewyrchu anghenion yr ysgol, ei disgyblion a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu;
- wrth ddatblygu'r polisi, mae staff wedi ystyried barn disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol;
- mae cynlluniau gweithredu wedi'u seilio ar archwiliad o ba mor dda y caiff disgyblion eu cynnwys yn yr ystod o ddarpariaeth yr ysgol;
- mae cynlluniau gweithredu yn cynnwys targedau clir, meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser ar gyfer monitro cynnydd;
- mae cynlluniau gweithredu wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol; ac
- mae polisi'r ysgol ar gydraddoldeb hiliol a chynhwysiad wedi cael ei gyfleu i'r holl gyfranogion.

Adran 2: Sut mae ysgolion yn monitro agweddau ar eu polisi a'u harfer

Cwricwlwm

46 Mae cynhwysiad a chydraddoldeb yn ganolog i ethos y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ac mae staff a disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o amrywiaeth, cydraddoldeb a hil trwy lawer o agweddau ar y cwricwlwm. Hyd yn oed mewn ysgolion lle mae niferoedd isel iawn o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae staff yn ceisio sicrhau bod eu disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'r agweddau hyn. Fodd bynnag, heb gynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol, gallai'r bwriadau hyn olygu bod y cyflwyno yn ad hoc. Er enghraifft, mewn ysgol gynradd wledig fach yng nghanolbarth Cymru lle nad oes unrhyw ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, er bod y polisïau a'r cynlluniau gweithredu ar bapur yn gyfyngedig, roedd agweddau ar gydraddoldeb hiliol yn cael eu cynnwys mewn arfer. Roedd y pwyslais mewn un cyngerdd ysgol gyfan ar adeiladu pontydd rhwng dwy gymuned wahanol iawn. Disgrifiodd disgyblion foeswers y ddrama fel "pwysigrwydd peidio â barnu llyfr yn ôl y clawr".

47 Mae staff ysgol mewn ardaloedd gwyn yn bennaf, yn dweud ei bod yn anodd i lawer o ddisgyblion werthfawrogi'r ystod a'r amrywiaeth o ran cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, oherwydd nad oes ganddynt yn aml unrhyw brofiad uniongyrchol o amrywiaeth o'r fath, er gwaethaf ymdrechion gorau'r ysgolion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff yn addysgu agweddau ar amrywiaeth trwy ystod o bynciau, a dethlir gwyliau llawer o wahanol grefyddau a diwylliannau.

48 Mae cyflwyno aml-ddiwylliannaeth fel elfen yn y Cyfnod Sylfaen trwy 'Ddatblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol' yn dechrau darparu sylfaen gadarn i ysgolion allu adeiladu eu haddysgu yn y dyfodol arni. Mewn rhai ysgolion cynradd, mae'r cwricwlwm bellach yn cael ei addysgu trwy gyfres o themâu, yn hytrach na thrwy bynciau ar wahân, gan alluogi disgyblion i archwilio rhai materion amlddiwylliannaeth yn fanylach. Er enghraifft, mae un ysgol gynradd, fel rhan o brosiect 'Gwreiddiau ac Adenydd' ('Roots and Wings'), wedi creu cysylltiadau gydag ysgolion yn Ewrop sydd â phroffil ac ethos yr un mor amrywiol.

49 Yn yr ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw, mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a dathliadau diwylliannol trwy gydol y flwyddyn, rhai Cristnogol a rhai nad ydynt yn Gristnogol, fel Ramadan, y Nadolig, Eid a Divali. Yn yr ystod yr achlysuron hyn, mae cymuned yr ysgol gyfan yn cymryd rhan yn y dathliadau, gyda gweithgareddau sydd hefyd yn cynnwys rhieni a llywodraethwyr.

50 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill trwy addysgu mewn ystod o bynciau. Mewn un ysgol uwchradd fawr mewn cymuned amlddiwylliannol, cymerodd 300 o ddisgyblion ran mewn 'Diwrnod Affricanaidd' a ddarparodd ystod o gyfleoedd i ddisgyblion brofi celf, dawns a cherddoriaeth Affricanaidd. Galluogodd hyn yr ysgol i ymgorffori diwylliant Affricanaidd wrth addysgu celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

51 Mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft arall o'r modd y mae un ysgol uwchradd wedi dathlu diwylliant grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llwyddiannus.

Codi ymwybyddiaeth am amrywiaeth ddiwylliannol, a'i dathlu

Cyd-destun: Ysgol gynradd ganolig ei maint yng nghanolbarth Cymru yw hon, gyda thua 800 o ddisgyblion. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd wedi bod yn niferoedd y disgyblion o ddwyrain Ewrop yn yr ysgol ac mae ganddi grŵp o ryw 30 disgybl o deuluoedd Gurkha hefyd, sy'n gwasanaethu yng nghanolfan leol y fyddin.

Strategaeth: Mae gan yr ysgol gysylltiadau da â'r gymuned Gurkha. Mae swyddog Gurkha yn gweithredu fel person cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned Nepalaidd ac yn rhoi cymorth i rai rhieni y mae eu dealltwriaeth o Saesneg yn gyfyngedig.

Gweithredu: Er mwyn dathlu a chryfhau ei chysylltiadau â'r gymuned Nepalaidd, cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod diwylliannol Nepalaidd ar gyfer ei disgyblion ei hun a'r disgyblion ym mhob un o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo.

Rhoddodd y swyddog cyswllt Gurkha sgwrs i bob un o'r disgyblion ar fywyd yn Nepal, wedi'i dilyn gan sesiwn adrodd storïau wedi'i seilio ar ddiwylliant Nepalaidd. Roedd digwyddiadau eraill yn cynnwys sioe ffasiynau gan ddisgyblion Nepalaidd, cerddoriaeth a dawnsio Nepalaidd, ac arddangos offerynnau cerdd Nepalaidd. Amser cinio, cymerodd pob un o'r disgyblion a'r staff ran mewn sesiwn blasu bwyd Nepalaidd cyn i sesiynau gweithdy yn y prynhawn roi cyfleoedd i'r disgyblion roi cynnig ar weithgareddau crefft Nepalaidd.

Canlyniadau: Roedd pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'r diwrnod ac mae'r disgyblion Nepalaidd yn teimlo eu bod yn cael eu hintegreiddio yng nghymuned yr ysgol ac maent yn falch eu bod wedi cael y cyfle i rannu agweddau ar eu diwylliant. Roedd y diwrnod hefyd yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer ysgolion yn y clwstwr hwn i weithio ar amrywiaeth ar draws y cwricwlwm.

52 Mae ysgolion yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cydraddoldeb yn dda mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Mae themâu gwasanaethau hefyd yn mynd i'r afael yn rheolaidd â materion fel ymddiriedaeth, ffrindiau, cyfathrebu a rhannu, gyda diwylliannau amrywiol disgyblion yn aml yn cael eu dathlu. Mewn nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae staff iaith ychwanegol arbenigol yr awdurdod lleol wedi gweithio gydag athrawon i ddatblygu cynlluniau gwaith a threfniadau addysgu cydweithredol i hyrwyddo gwerthfawrogiad o gydraddoldeb hiliol.

53 Dywedodd un disgybl: *"mewn gwersi addysg grefyddol, rydym ni wedi siarad llawer am hiliaeth ac rydym ni'n cael llawer o gyfleoedd i drafod pethau a gwrando ar safbwyntiau pobl eraill. Nid ydym yn cytuno bob tro ond does dim ots am hynny; dim ond bod pawb yn cael yr un cyfleoedd i wneud pethau heb i bobl eu heithrio oherwydd eu bod yn lliw gwahanol".*

54 Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, dywed disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig y gellid gwneud mwy i wneud staff a disgyblion yn ymwybodol o'u gwreiddiau. Er enghraifft, mewn un achos, roedd disgybl o Wlad y Thai yn cael ei chamgymryd yn aml am ddisgybl Tsieineaidd, ac roedd hyn yn peri

gofid iddi. Nid yw ysgolion bob amser yn mynd i'r afael â phryderon personol ond pwysig o'r fath fel problem lle mae niferoedd y disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn brin iawn.

55 Mae ysgolion yn cefnogi ystod eang o elusennau ac mae cefnogaeth o'r fath yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am faterion sy'n gysylltiedig ag amddifadedd ar draws ystod o ddiwylliannau a grwpiau hiliol.

56 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud eu gorau i gael gwared ar stereoteipiau trwy sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael mynediad cyfartal at bob agwedd ar y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, roedd set o werslyfrau a brynwyd yn ddiweddar yn cynnwys lluniau o ddisgyblion gwrywaidd gwyn yn unig, a dychwelodd yr ysgol y rhain at y cyhoeddwr oherwydd ei bod yn ystyried hwn yn fodel annerbyniol ar gyfer disgyblion.

57 Nid yw unrhyw ysgolion uwchradd yn gwirio dewis disgyblion o leoliadau gwaith am stereoteipio ar hyn o bryd. Mae lleoliadau yn tueddu i gael eu harwain gan ddisgyblion a'u rheoli gan ddiddordebau'r disgyblion eu hunain, neu ddisgwyliadau eu teuluoedd. Dywed ysgolion eu bod yn aml yn ei chael yn anodd ymdopi â phwysau o'r fath. Mewn un ysgol uwchradd, roedd disgyblion sy'n ferched Asiaidd yn dweud bod eu teuluoedd am iddynt astudio'r gwyddorau gyda'r bwriad o astudio meddygaeth yn y pen draw. Mewn rhai achosion, roedd y merched yn teimlo nad oedd hyn yn briodol i'w diddordebau a'u galluoedd.

58 Mewn ysgol uwchradd arall sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion sy'n sipsi deithwyr, mae'r ystod ehangach o gyrsiau galwedigaethol sydd bellach yn cael eu cynnig trwy'r fenter llwybrau 14-19 yn hynod boblogaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n sipsi deithwyr yn dewis opsiynau cwrs gwrywaidd/benywaidd traddodiadol, ond mae staff yr ysgol yn caniatáu hyn oherwydd ei fod yn gam ymlaen i'r gymuned sipsi deithwyr ymgymryd â phrofiad galwedigaethol y tu allan i'w cymuned eu hunain.

Yn yr ysgolion lle caiff egwyddorion cynhwysol eu hymgorffori'n llwyddiannus yn y cwricwlwm:

- mae cynhwysiad a chydraddoldeb yn ganolog i ethos yr ysgol ac yn cael eu hadlewyrchu yn ei pholisïau ar y cwricwlwm a'i chynlluniau gwaith;
- mae gwersi mewn pynciau fel addysg grefyddol ac ABCh yn ymdrin ag ystod eang o destunau yn ymwneud ag amrywiaeth, hil a chydraddoldeb;
- mae staff yn sicrhau bod ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill yn cael ei chodi trwy brofiadau uniongyrchol;
- mae themâu gwasanaethau wedi'u cynllunio'n dda i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar ystod o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb; ac
- mae diwylliannau disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn cael eu dathlu, i wneud disgyblion yn falch o'u treftadaeth.

Trefniadau addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion lleiafrifoedd ethnig

59 Mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd ag anghenion iaith ychwanegol mewn Cymraeg neu Saesneg yn cael eu cefnogi'n dda mewn ysgolion, yn bennaf trwy'r ddarpariaeth gan awdurdodau lleol o ran athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth. Defnyddir model pum cyfnod caffael iaith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn effeithiol i bennu lefel y cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion, ac fe gaiff eu cynnydd ei fonitro yn ofalus.

60 Cymysgedd o gymorth tynnu disgyblion yn ôl o wersi mewn grwpiau bach a chymorth ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd, yw'r cymorth yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae staff arbenigol yn cynnal asesiadau ym mamieithoedd y disgyblion er mwyn pennu unrhyw anghenion sydd ganddynt y tu hwnt i gaffael iaith. Lle mae cymorth o'r fath ar gael, mae'n hynod effeithiol. Mewn un ysgol lle derbyniwyd disgybl o Wlad Pwyl yn ddiweddar, fe wnaeth y gwasanaeth lleiafrifoedd ethnig lleol gynorthwyo rhieni i gael adroddiadau gan y seicolegydd addysg yng Ngwlad Pwyl. Roedd yr adroddiadau, a gyfieithwyd i Saesneg, yn golygu bod modd cynnal asesiad cywir o anghenion y disgybl a threfnu cymorth priodol.

61 Y broblem fwyaf o ran cymorth i'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yw pan fydd disgyblion y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cael eu derbyn ar ôl iddynt fod yn 14 oed. Yn yr achosion hyn, caiff cymorth ei dargedu mwy at y disgyblion hyn er mwyn helpu iddynt lwyddo mewn arholiadau, lle'r oedd modd. Soniodd un ysgol uwchradd am nifer o enghreifftiau lle'r oedd disgyblion a dderbyniwyd ym Mlynyddoedd 10 ac 11 nad oedd ganddynt ryw lawer o Saesneg wedi llwyddo i gael graddau C a D mewn Saesneg a mathemateg TGAU. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn annog disgyblion i sefyll arholiad TGAU yn iaith eu cartref, ond mewn rhai achosion, nid ydynt ar gael bob tro.

62 Mae rhai ysgolion yn effeithiol wrth recriwtio athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a dywedant fod hyn yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu cysylltiadau cymunedol a chyfathrebu â disgyblion yn iaith eu cartref, yn enwedig pan fydd y disgyblion yn dechrau dysgu Cymraeg neu Saesneg.

63 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r cymorth a gânt gan athrawon iaith ychwanegol arbenigol a chynorthwywyr cymorth. Dywedodd un disgybl ei bod yn cael mwy o broblemau yn deall y 'fratiaith' y mae ei ffrindiau'n ei defnyddio na phroblemau mewn gwersi prif ffrwd. Dywedodd disgybl arall: *"Doeddwn i ddim yn gallu siarad Saesneg pan ddes i yma, ond roedd pawb yn barod iawn i helpu ac fe ges i wersi arbennig. Does dim angen y rhain arna' i nawr ac mae disgwyl i mi wneud yn dda yn fy arholiadau TGAU. Rydw i wedi cael llawer mwy o gefnogaeth yma nag yn fy ngwlad fy hun".*

64 Mae llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cael cymorth da, ychwanegol gan eu hawdurdodau lleol ar addysgu ieithoedd. Fodd bynnag, mewn nifer o ysgolion, oherwydd y mewnlifiad o niferoedd mawr o ddisgyblion o dramor yn ddiweddar, yn enwedig o ddwyrain Ewrop, dywed ysgolion fod yr adnoddau'n cael eu hymestyn.

65 Mae pob un o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn asesu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn unigol. Caiff unrhyw ddisgyblion y canfyddir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi fel rhan o

weithdrefnau anghenion dysgu ychwanegol bob dydd yr ysgol ac fe gaiff cynnydd disgyblion ei fonitro yn ofalus. Er enghraifft, mewn un ysgol gynradd, o ganlyniad i fonitro cynnydd disgybl, daeth yr ysgol yn gysylltiedig â phrosiect 'Success Maker' Rhagori, ac mewn prosiect ymchwil gweithredu ar wella cyflawniad bechgyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau pob un o'r disgyblion at ddysgu.

66 Mae'r astudiaeth achos isod yn egluro'r strategaethau a ddefnyddir gan un ysgol uwchradd i wella agweddau at ddysgu ymhlith rhai disgyblion lleiafrifoedd ethnig.

Gwella agweddau at ddysgu

Cyd-destun: Ysgol gyfun fawr yw hon mewn ardal drefol yn ne orllewin Cymru. Mae ganddi 1,500 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda thua 10% o'r rhain o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Cynhwysiad a chydraddoldeb i bawb sydd wrth wraidd ethos yr ysgol.

Strategaeth: Caiff pob un o'r disgyblion y nodir eu bod yn wynebu rhwystrau rhag dysgu eu hasesu gan eu hathrawon a thîm cynhwysiad yr ysgol. Mae aelodau dwyieithog o'r tîm cymorth cymunedol wedi'u dynodi i weithio fel mentoriaid dysgu ar gyfer disgyblion lleiafrifoedd ethnig. Mae problemau disgyblion yn amrywiol ond gallant gynnwys presenoldeb a phrydlondeb gwael, ymddygiad aflonyddgar, medrau cymdeithasol gwael ac agweddau negyddol tuag at ddysgu; gall pob un o'r rhain arwain at gyflawniad academaidd gwael.

Gweithredu: Mae'r mentoriaid dysgu:

- yn cyfarfod â disgyblion yn rheolaidd ar sail un i un i ennyn eu parch a'u hymddiriedaeth a'u helpu i ddatrys problemau sy'n creu rhwystrau rhag dysgu;
- yn cytuno ar gynlluniau gweithredu gyda'r disgybl sy'n egluro nodau'r sesiynau mentora ac yn darparu targedau cyflawnadwy ond heriol ar gyfer y disgybl;
- yn gweithio ar adeiladu hyder a gwella cymhelliant;
- yn rhoi cymorth gyda chyfieithu, gwaith cwrs ac adolygu;
- yn cyfathrebu â rhieni dros y ffôn neu yn ysgrifenedig yn iaith eu cartref;
- yn mynychu nosweithiau rhieni i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer disgyblion, rhieni ac athrawon; ac
- yn trefnu gweithdai ar destunau sy'n ymwneud â ffyrdd o fyw pobl ifanc yn eu harddegau, er enghraifft, straen, gyrfaoedd a gwaith tîm.

Canlyniadau: Mae'r fenter hon yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau llawer o'r disgyblion lleiafrifoedd ethnig hyn at ddysgu, fel y dangosir yn y gwelliant yn eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u marciau mewn gwaith cwrs.

67 Mae llawer o staff sy'n gweithio mewn ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig wedi adeiladu eu harbenigedd dros nifer o flynyddoedd a gallant roi cymorth effeithiol i ddisgyblion a'u teuluoedd, pan nodir anghenion ychwanegol.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn ariannu darpariaeth ychwanegol, yn enwedig cynorthwywyr addysgu, o'u cyllidebau eu hunain, er mwyn rhoi'r sylw ychwanegol i ddisgyblion sydd ei angen arnynt.

Yn yr ysgolion lle ceir yr arfer orau wrth ddiwallu anghenion addysgu a dysgu ychwanegol disgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- mae ysgolion yn gweithio'n agos gydag athrawon iaith ychwanegol arbenigol awdurdodau lleol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
- lle byddant ar gael, cynhelir asesiadau iaith y cartref gyda disgyblion;
- caiff cymorth ei dargedu'n agos at anghenion disgyblion pan nodir anghenion dysgu ychwanegol;
- nodir tangyflawniad unrhyw unigolion neu grwpiau o ddisgyblion a rhoddir cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn;
- caiff llwyddiant y strategaethau hyn ei fonitro yn ofalus ac asesir eu heffaith ar gyflawniad disgyblion; a
- defnyddir profiad staff, yn enwedig y rheiny sy'n cael eu recriwtio o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, i gynnwys rhieni a'r gymuned leol wrth ysgogi gwelliannau ar gyfer disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Ymddygiad a chymorth bugeiliol

68 Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ystod o fesurau cadarnhaol ar waith i annog a gwobrwyo ymddygiad da. Mae'r ysgolion hyn yn sicrhau bod strategaethau yn cael eu gwneud yn glir i bob un o'r staff, ac yn yr achosion gorau, caiff y strategaethau hyn eu cymhwyso'n gyson ar draws pob grŵp o ddisgyblion. Mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau nad ydynt yn rhai lleiafrifol yn ymateb yn dda pan fyddant yn gwybod y byddant yn cael eu trin yn deg ac yn gyson gan bob aelod o staff. Yn yr arfer orau, mae ysgolion hefyd yn sicrhau bod eu polisïau ymddygiad yn glir i bob rhiant, naill ai trwy ohebiaeth ysgrifenedig neu gyswllt personol.

69 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae hyfforddiant rheolaidd yn sicrhau bod pob un o'r staff yn dilyn yr un gweithdrefnau wrth ddelio ag achosion o gamymddwyn. Mae hyn yn fwyaf effeithiol lle mae gan uwch aelodau o staff broffil uchel o gwmpas yr ysgol fel rhan o'u rôl fonitro. Lle mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ymwneud â datblygu polisi ymddygiad ysgol trwy gyngor yr ysgol, er enghraifft, caiff hyn effaith gadarnhaol wrth i ddisgyblion helpu gwneud penderfyniadau am y polisi a theimlo mai eu polisi nhw ydyw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd yn ymateb yn dda i ddathlu eu cyflawniadau yn yr ystyr ehangaf ac mae gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau ar waith i sicrhau bod y dathliadau hyn yn digwydd yn rheolaidd. Dywed disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig fod parchu eich gilydd yn ffactor pwysig wrth annog ymddygiad da.

70 Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ceisio gweld disgyblion fel unigolion yn gyntaf ac nid fel aelodau o grŵp hiliol penodol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, disgwylir yr un safonau ymddygiad gan bawb. Mewn nifer fach iawn o achosion, mae rhai problemau ymddygiad cychwynnol pan fydd disgyblion yn ymuno ag ysgol o dramor, ond mae hyn yn aml yn bennaf oherwydd nad yw disgyblion y mae eu dealltwriaeth o Gymraeg neu Saesneg yn gyfyngedig yn gallu darllen polisïau'r ysgol ac mae materion o'r fath yn tueddu i gael eu datrys yn gyflym.

71 Mewn rhai ysgolion, mae tensiynau hiliol yn y gymuned rhwng teuluoedd weithiau'n cyrraedd yr ysgol, ac mewn achosion o'r fath, mae ysgolion yn gweithio'n galed gydag ystod o asiantaethau i sicrhau bod y rhain yn cael eu datrys, cyn iddynt ddwysáu, os oes modd.

72 Mae gan bron bob ysgol bolisïau gwrth-fwlio clir sy'n cyfeirio at fwlio hiliol. Mae penaethiaid yn cydnabod bod bwlio yn digwydd mewn ysgolion ac yn ystyried ei bod yn hanfodol i ysgolion gael strategaethau cyson ar waith i ddelio â hyn. Mae digwyddiadau proffil uchel, fel wythnos gwrth-fwlio genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhoi cyfleoedd da i ysgolion godi ymwybyddiaeth am faterion hiliol a materion bwlio eraill a'u canlyniadau posibl.

73 Mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno systemau cyfaill a chymorth mentora cyfoedion i helpu atal unrhyw faterion bwlio a rhoi cymorth i ddisgyblion. Mae'r cynlluniau hyn yn boblogaidd gyda disgyblion. Er enghraifft, mae nifer o ysgolion cynradd wedi darparu hyfforddiant ar gyfer disgyblion hŷn, gan gynnwys disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, i ddod yn gyfeillion amser egwyl ac amser cinio. Eu rôl yw sicrhau nad oes unrhyw ddisgyblion yn cael eu hynysu o gemau disgyblion eraill a bod anghydfod bach yn cael ei ddatrys. Mae nifer o ysgolion cynradd hefyd yn darparu 'blychau gwrando' lle gall disgyblion nodi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt nad ydynt o bosibl eisiau siarad â staff amdanynt. Mae disgyblion yn gwybod yr ymchwilir i'r rhain ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd. Mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn canmol trefniadau o'r fath gan ddweud eu bod yn ffordd effeithiol o atal bwlio hiliol.

74 Mewn ysgolion uwchradd, mae nifer o systemau mentora cyfoedion ar waith i gefnogi disgyblion sy'n newydd i'r ysgol, gan gynnwys y rheiny o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac i roi cymorth i ddisgyblion sy'n gofidio neu wedi'u hymddieithrio hefyd. Mae'r trefniadau hyn yn boblogaidd gyda disgyblion. Mewn nifer o ysgolion, mae disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn fentoriaid cyfoedion. Caiff y mentoriaid cyfoedion hyn eu hyfforddi i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth, ac os ydynt yn dymuno, gall y mentoriaid cyfoedion adeiladu portffolio o'r cymorth y maent wedi'i roi i gael achrediad mewn mentora. Mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn gwerthfawrogi'r trefniadau hyn ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r rheiny sy'n gweithredu fel mentoriaid cyfoedion yn gwerthfawrogi'r cyfrifoldeb ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol.

75 Mae'r rhan fwyaf o staff ysgol yn dda yn chwilio am atebion i anghenion pob disgybl unigol. Maent yn darparu lefelau da o gymorth bugeiliol, yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ceisio trin pawb yn gyfartal ac yn deg. Ceir tystiolaeth o hyn yn y tabl isod sy'n dangos y graddau a gafodd ysgolion a arolygwyd yn 2007-2008 ar gyfer Cwestiwn Allweddol 4: 'Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?' fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2007-2008 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4
Ysgolion cynradd	40%	55%	5%	-
Ysgolion uwchradd	51%	43%	6%	-
Ysgolion arbennig	57%	25%	18%	-

76 Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gaiff dysgwyr yn dda neu'n well heb unrhyw ddiffygion pwysig (gradd 2) mewn 95% o ysgolion cynradd, 94% o ysgolion uwchradd ac 82% o ysgolion arbennig. Bron yn hanner yr ysgolion, mae'r ddarpariaeth hon yn dda gyda nodweddion rhagorol (gradd 1). Fodd bynnag, nid yw llawer o adroddiadau arolygu yn rhoi sylwadau manwl ar ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Monitro ac adrodd am achosion hiliol

77 Mae gan lawer o ysgolion weithdrefnau clir ar gyfer delio â'r achosion hiliol sy'n digwydd a'u cofnodi. Fodd bynnag, mewn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid oes unrhyw systemau ar waith i gofnodi'r achosion hyn ar wahân. Yn yr ysgolion hyn, caiff achosion eu cofnodi yn yr un modd ag achosion ymddygiad, ac fe'u cofnodir fel rhan o gofnod achosion ymddygiad yr ysgol ac nid fel achosion hiliol ar wahân.

78 Gall pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw nodi a oedd unrhyw achosion â chymhelliant hiliol wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Ym mhob achos, mae nifer yr achosion a gofnodwyd yn isel iawn neu nid ydynt yn bodoli. Lle mae achosion wedi digwydd, mae'r rhain yn aml yn ymwneud â galw enwau amhriodol gan unigolyn neu grŵp o ddisgyblion.

79 Mewn un ysgol gynradd lle mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig, mae'r ysgol yn gweithio'n galed i sicrhau, os yw disgyblion gwyn yn cael eu derbyn, bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw'r disgyblion hynny sy'n aml wedi mynychu ysgolion lle ceir disgyblion o gefndiroedd gwyn yn bennaf, yn destun sylwadau hiliol na'u bod yn gwneud sylwadau hiliol yn anfwriadol.

80 Dywedodd un ysgol uwchradd sydd â disgyblion gwyn yn bennaf fod cam-drin hiliol wedi cael ei ddefnyddio gan rai disgyblion gwyn. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r ysgol yn defnyddio dull cadarn ac yn cynnwys rhieni'r disgyblion hyn wrth ddelio â'r cam-drin. Fodd bynnag, dywed yr ysgol nad yw rhieni bob amser yn eu cefnogi wrth ddelio â materion o'r fath, oherwydd barn hiliol y rhieni eu hunain a'r farn yn y gymuned leol. Mae achosion o'r fath yn codi materion ehangach am y cyd-destun y mae ysgolion yn gweithio ynddo.

81 Ychydig iawn o dystiolaeth neu achosion o gam-drin hiliol a adroddir gan ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw.

82 Dywed sawl ysgol uwchradd sydd â niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig fod y prif ddigwyddiadau cam-drin hiliol yn ymwneud â'r gymuned leol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion a gafodd eu cyfweld yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn dweud bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd ac mai anaml y mae cymhelliant hiliol i anghydfod. Dywedodd un disgybl: *"pan fydd*

dadleuon, mae'n aml am bêl-droed, nid oherwydd ein bod ni'n dod o wlad wahanol. Arwyddair ein hysgol ni yw, mae pawb yn gyfartal, mae pawb yn wahanol, ac mae hynny'n bwysig iawn".

83 Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd wedi mynychu ysgolion yn Lloegr yn y gorffennol yn hynod gadarnhaol ynglŷn â'u profiadau yng Nghymru. Maent yn sôn am gam-drin hiliol a oedd yn llawer mwy amlwg yn eu hysgolion blaenorol, ac nad ydynt wedi profi hyn o gwbl ers symud i'w hysgolion uwchradd presennol.

84 Fodd bynnag, er mai darlun cadarnhaol yw hwn ar y cyfan, mae llawer o ysgolion yn ymwybodol, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, nad yw staff yn cael gwybod am nifer o'r achosion hiliol sy'n digwydd. Gallai hyn fod oherwydd bod y dioddefwyr yn ofni dial naill ai yn yr ysgol neu yn y gymuned leol.

85 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos y modd y gwnaeth ysgol uwchradd gymryd camau effeithiol pan ddigwyddodd achos hiliol.

Dull effeithiol o ddelio ag achos hiliol

Cyd-destun: Mae 960 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol gyfun ganolig ei maint hon yn ne ddwyrain Cymru. Mae llai na 2% o'r disgyblion hyn o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Dyma yw arwyddair yr ysgol:

"Credwn fod pob disgybl yn bwysig ym mhopeth a wnawn. Rydym yn gwerthfawrogi pob disgybl am yr hyn y maent wedi ceisio'i gyflawni yn ogystal â'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Rydym yn gwerthfawrogi pawb yn gyfartal."

Strategaeth: Mae'r arwyddair hwn yn amlwg yn ethos cyfan yr ysgol. Er mai nifer gymharol fach o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd yn yr ysgol, mae'n cymryd pob math o fwlio, gan gynnwys achosion hiliol, yn gwbl ddifrifol ac yn gweithio'n galed i atal agweddau hiliol yn y gymuned leol ac yn rhai o'i grwpiau rhieni. Mae disgyblion yn cadarnhau effeithiolrwydd gweithdrefnau'r ysgol.

Gweithredu: Yn ystod y 18 mis diwethaf, pan alwyd enwau sarhaus ar un disgybl o dreftadaeth Gymreig, Affro-Caribïaidd, gweithredodd yr ysgol yn gyflym i gynnwys pob un o'r disgyblion a'u rhieni yn ei hymchwiliadau. Cafodd y dioddefwr ei gynnwys wrth benderfynu pa gamau y dylid eu cymryd yn erbyn y tramgwyddwyr. Ymgymerodd â'i rôl yn ddifrifol iawn a gweithredodd mewn modd aeddfed. Mae ei fam yn cadarnhau bod cymryd rhan mewn penderfynu'r canlyniad wedi rhoi awdurdod i'w mab ac wedi gwella ei hunan-barch a'i hyder. Nid yw'r tramgwydd wedi cael ei ailadrodd o gwbl ac mae'r dioddefwr bellach wedi ymgynefino â bywyd ysgol.

Canlyniad: Mae'r ysgol hon wedi cynnal peilot o'r Wobr 'Buddsoddwyr mewn Pobl' ac wedi'i hennill; gwobr sy'n cael ei hyrwyddo gan ei gwasanaeth gwella ysgolion. Mae'r wobr yn cydnabod y ffordd y mae'r ysgol yn cefnogi pob teulu i sicrhau bod gan eu plant yr iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol gorau a bod pawb yn cael eu clywed a'u trin â pharch.

86 Er nad yw rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'w hawdurdodau lleol am achosion hiliol, mae gan y mwyafrif weithdrefnau mewnol clir ar gyfer cofnodi pob achos o ymddygiad annerbyniol, hiliol neu fel arall. Yn yr ysgolion lle caiff achosion hiliol eu cofnodi ar ffurflenni a ddarperir gan yr awdurdod lleol, gwneir adroddiadau rheolaidd ar nifer yr achosion. Fodd bynnag, mewn nifer sylweddol o awdurdodau lleol, er bod angen adroddiadau achosion, nid yw awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'w hysgolion anfon adroddiadau dim pan na adroddwyd am unrhyw achosion.

87 Dim ond nifer fach iawn o ysgolion sy'n ymwybodol o'r defnydd a wna'r awdurdod lleol o'r cofnodion achosion hiliol y maent yn eu dychwelyd. Yn y nifer fach o awdurdodau lleol hyn, caiff achosion eu casglu a'u dadansoddi'n ofalus. Os gwelir bod patrymau o achosion hiliol yn digwydd mewn ysgol, yna mae'r awdurdodau lleol hyn yn sicrhau bod cymorth penodol yn cael ei roi ar waith i helpu'r ysgol i fynd i'r afael â'r materion. Anaml y mae angen cymorth o'r fath, fodd bynnag.

Gwahardd disgyblion

88 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cadw cofnodion manwl o waharddiadau, er mai ychydig ohonynt sy'n monitro'r rhain yn ffurfiol yn ôl grŵp hiliol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan ysgolion ar gyfer y cylch gwaith hwn yn dangos nad yw gwahardd disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn fater arwyddocaol ar gyfartaledd. Mae cofnodion ysgolion yn cadarnhau bod y gyfradd uchaf o waharddiadau ymhlith bechgyn gwyn ar gyfartaledd. Dim ond nifer fach o ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd o ganlyniad i achosion sydd â chymhelliant hiliol mewn ysgolion.

89 Mae mwyafrif yr ysgolion yn gwneud popeth y gallant i osgoi gwahardd disgyblion ac yn ystyried hyn fel y dewis olaf dim ond pan fydd mesurau eraill wedi methu. Defnyddir ystod o strategaethau i atal diffyg ymgysylltiad disgyblion, ac mae llawer ohonynt yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp o ddisgyblion.

Yn yr ysgolion lle ceir yr arfer orau o ran annog ymddygiad da, cofnodi ac adrodd am achosion hiliol a lleihau gwaharddiadau disgyblion, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- caiff ystod o fesurau eu rhoi ar waith i wella ymgysylltiad ac ymddygiad disgyblion sy'n ystyried barn disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol;
- mae polisïau ymddygiad a strategaethau gwrth-fwlio yn glir i bawb ac yn cael eu cymhwyso'n gyson;
- mae systemau mentora cyfoedion a systemau cyfaill ar waith i gefnogi pob disgybl yn effeithiol;
- mae awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar achosion hiliol neu adroddiadau yn nodi na fu unrhyw achosion, ac yn gwneud ysgolion yn ymwybodol o sut defnyddir eu dadansoddiad o'r data hwn i gefnogi gostyngiad yn nifer yr achosion hiliol mewn ysgolion lle nodir materion; ac
- mae ysgolion yn cadw cofnodion manwl ar wahardd pob grŵp o ddisgyblion ac yn dadansoddi'r rhain ar gyfer tueddiadau neu batrymau.

Partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned leol

90 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn effeithiol wrth ddatblygu cysylltiadau agos gyda rhieni a'u cymunedau lleol. Mae llawer o rieni o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn awyddus i fynychu digwyddiadau fel nosweithiau rhieni, gwasanaethau dosbarth, cyngherddau a digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan gymdeithasau rhieni ysgolion.

91 Mae llawer o ysgolion yn gweithredu polisi drws agored a gall rhieni siarad â phenaethiaid neu uwch aelodau o staff heb system apwyntiadau. Mae llawer o ysgolion hefyd yn gwneud yn siŵr bod staff ar gael cyn ac ar ôl pob diwrnod ysgol i ymdrin ag unrhyw faterion pryder a allai fod gan rieni.

92 Mae rhai ysgolion wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu rhieni disgyblion lleiafrifoedd ethnig i weithredu fel llywodraethwyr ysgol ac maent wedi gwneud defnydd da o'u gwybodaeth gymunedol wrth gynllunio digwyddiadau amlddiwylliannol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, fe wnaeth llywodraethwyr o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig drefnu a helpu cynnal noson blasu bwyd aml-ethnig, a oedd yn boblogaidd iawn gyda rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned leol.

93 Mae lleiafrif o ysgolion yn darparu cyrsiau dysgu teuluol ar gyfer rhieni ar y cyd â gwasanaethau addysg oedolion a chymuned yr awdurdod lleol. Mewn nifer o ysgolion, mae'r cyrsiau hyn yn darparu cyfleoedd da ar gyfer rhieni nad ydynt yn medru llawer o Gymraeg neu Saesneg, i wella eu medrau iaith, gan ddysgu ochr yn ochr â'u plant weithiau.

94 Mewn nifer o ysgolion mewn ardaloedd sydd â chymunedau lleiafrifoedd ethnig mawr, caiff rhieni neu aelodau eraill o'r gymuned eu cyflogi yn yr ysgol fel cynorthwywyr cymorth dysgu a goruchwylwyr canol dydd, ac mewn rhai achosion, fel athrawon. Mewn dwy ysgol sy'n gwasanaethu cymunedau sipsi deithwyr, mae nifer o gyn-ddisgyblion wedi ennill cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol (CGC) yn llwyddiannus, ac maent yn awr yn cael eu cyflogi fel cynorthwywyr cymorth, sy'n darparu cyswllt ardderchog â'r gymuned sipsi deithwyr leol.

95 Mewn rhai ysgolion, mae staff iaith arbenigol awdurdod lleol yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar gyfer ysgolion i gyfathrebu â rhieni nad ydynt yn medru llawer o Gymraeg neu Saesneg. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw llythyrau a gohebiaeth arall yn cael eu cyfieithu. Mewn ysgolion sydd â phoblogaethau mawr o leiafrifoedd ethnig a niferoedd uchel o rieni sy'n siarad Saesneg ond efallai'n cael trafferth â chyfathrebu ysgrifenedig, mae ysgolion yn sicrhau bod cyswllt personol i ddweud wrth rieni am unrhyw ddigwyddiadau pwysig yn yr ysgol neu faterion sydd efallai'n peri pryder i'w plentyn.

96 Mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd da o athrawon neu gynorthwywyr cymorth dysgu o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i gyfathrebu â rhieni yn eu hiaith eu hunain. Lle nad yw trefniadau o'r fath yn bosibl, mae staff yr ysgol hefyd yn cyfathrebu â rhieni trwy ddefnyddio brodyr neu chwiorydd hŷn, neu'r disgyblion eu hunain, fel cyfieithwyr.

97 Mae'r astudiaeth achos isod yn egluro sut mae un ysgol gynradd wedi defnyddio gweithwyr cymorth cartref i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer grŵp o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig.

Sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr

Cyd-destun: Mae dros 600 o ddisgyblion yn yr ysgol gynradd fawr hon mewn ardal drefol yn ne ddwyrain Cymru, ac mae 83% ohonynt yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae gan yr ysgol hefyd niferoedd cynyddol o ddisgyblion y mae Saesneg yn un o'u hanghenion iaith ychwanegol.

Strategaeth: Mae gan yr ysgol nifer fawr o staff sy'n gweithio gyda disgyblion a nodwyd i ddarparu cymorth iaith-cartref, yn yr ysgol ac i deuluoedd disgyblion, y mae Saesneg llawer ohonynt yn gyfyngedig iawn. Mae hyn yn helpu meithrin perthynas agos rhwng y cartref a'r ysgol ac yn sicrhau bod rhieni yn gwybod beth mae'r ysgol yn ceisio'i gyflawni ar gyfer eu plant a sut maent yn mynd ati i wneud hyn.

Gweithredu: Mae staff cymorth iaith cartref yn gweithio gyda disgyblion unigol a grwpiau bach yn yr ysgol, i ddatblygu medrau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig disgyblion yn Saesneg trwy gyfrwng y Saesneg ac wrth ddefnyddio ieithoedd y disgyblion eu hunain.

Canlyniadau: Mae'r dull hwn yn galluogi'r ysgol i helpu disgyblion newydd ymgynefino yn gyflym, ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn datblygu eu medrau iaith yn gyflym er mwyn iddynt allu ymdopi â gwersi prif ffrwd. Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol yr ysgol yn dangos llwyddiant y dull hwn ar gyfer disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

98 Mae llawer o ysgolion hefyd yn cael cymorth da gan y gymuned leol i helpu codi ymwybyddiaeth disgyblion am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill trwy wasanaethau, ymweliadau ac ymwelwyr, i gyfoethogi testunau cyfredol sy'n cael eu hastudio mewn ystod o bynciau.

99 Mae'r ysgolion hyn hefyd yn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwneud yn llawn â bywyd eu cymunedau lleol trwy gyfranogi mewn digwyddiadau cymunedol, ac fe gynhelir rhai ohonynt ar safle'r ysgol. Mewn un ysgol uwchradd, mae canolfan adnoddau anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn gweithredu fel canolfan galw i mewn ar gyfer rhieni o'r gymuned sipsi deithwyr leol pan fydd angen cyngor neu gymorth arnynt.

Lle mae ysgolion yn datblygu cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a'r gymuned leol, yn yr arfer orau, maent:

- yn hyrwyddo ymdeimlad o gynhwysiad ac ethos croesawgar lle mae staff ar gael yn hawdd pan fydd gan rieni bryderon neu fod angen gwybodaeth arnynt;
- yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ganddynt i gyfathrebu'n glir â rhieni a'r gymuned, weithiau trwy ddefnyddio staff cymorth iaith-cartref; ac
- yn gwneud defnydd da o adnoddau cymunedol i feithrin cysylltiadau gyda'r ysgol a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Adran 3: Sut mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr

Monitro cyflawniad a chyrhaeddiad

100 Ychydig iawn o ysgolion sy'n olrhain cyflawniad a chyrhaeddiad eu disgyblion yn ôl grŵp lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae trefniadau ar gyfer cofnodi cynnydd pob disgybl unigol.

101 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod o brofion safonol i olrhain cynnydd disgyblion mewn mathemateg, darllen a sillafu, er enghraifft. Mae llawer ohonynt hefyd yn defnyddio profion gallu safonol i ragfynegi perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2. Mae gan lawer o ysgolion systemau cyfrifiadurol ar waith i gofnodi cynnydd disgyblion yn erbyn y profion hyn wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

102 Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion cynradd sy'n dadansoddi'r data y maent wedi'i gasglu yn effeithiol ar gyflawniad disgyblion unigol i nodi a thargedu cymorth ar gyfer disgyblion sy'n tanberfformio. Dim ond mewn tair ysgol gynradd yr ymwelwyd â nhw yr oedd data cyrhaeddiad yn cael ei ddadansoddi yn ôl grŵp lleiafrifoedd ethnig.

103 Gwelwyd tystiolaeth o arfer orau mewn lleiafrif bach o ysgolion cynradd sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, lle defnyddiwyd data i nodi unrhyw danberfformio mewn grwpiau o'r fath, ac os yw'n briodol, rhoddwyd mesurau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, roedd un ysgol gynradd wedi nodi bod ysgrifennu yn broblem i rai disgyblion sy'n ferched o Fangladesh, ac roedd wedi targedu cymorth trwy glwb ysgrifennu wedi'i anelu'n benodol at y grŵp hwn.

104 Mae'r astudiaeth achos yn egluro arfer dda wrth olrhain cynnydd disgyblion ac ymyrryd.

Olrhain cynnydd disgyblion

Cyd-destun: Ysgol gynradd yn ne orllewin Cymru yw hon, sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn dod o gymuned sefydlog, a dim ond mewn ychydig o achosion y mae presenoldeb isel yn effeithio ar ganlyniadau.

Strategaeth: Mae'r ysgol wedi datblygu ei system olrhain gadarn ei hun sy'n galluogi athrawon i olrhain disgyblion o'r meithrin i Flwyddyn 6.

Gweithredu: Mae gan bob disgybl broffil disgybl unigol sy'n cwmpasu ystod o asesiadau a phrofion. Mae'r rhain yn cynnwys asesiad gwaelodlin, cyrhaeddiad mewn mathemateg a Saesneg, cofnodion anghenion dysgu ychwanegol, hunan-barch ac agweddau at asesiadau dysgu a chofnodion presenoldeb. Caiff data sy'n bwydo i'r proffiliau hyn ei ddadansoddi gan y pennaeth, y cydlynydd asesu ac athrawon yn flynyddol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i nodi meysydd i'w gwella ar gyfer unigolion, carfannau neu grwpiau o ddisgyblion. Caiff y rheiny sydd angen cymorth ychwanegol neu ymyriadau penodol yn ystod y flwyddyn i ddod eu nodi a rhoddir cymorth priodol ar waith.

Canlyniadau: Caiff effaith y cymorth hwn ar gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion ei monitro a'i harfarnu'n ofalus. Defnyddir y dadansoddiad hefyd i lywio cynllunio'r cwricwlwm, dethol adnoddau ac anghenion datblygiad proffesiynol y staff i roi'r gefnogaeth orau i'r dysgwyr hyn.

Mae'r ysgol wedi defnyddio arian Rhagori yn llwyddiannus i dargedu disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni, ac mae hyn yn cael effaith fesuradwy ar ganlyniadau diwedd cyfnodau allweddol.

105 Yn yr ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw, caiff cynnydd disgyblion ei olrhain beth bynnag fo'u hethnigrwydd, ond hyd yn hyn, nid oes unrhyw dueddiadau amlwg wedi ymddangos ynglŷn â pherfformiad unrhyw grwpiau penodol. Caiff olrhain ei wneud yn bennaf trwy asesu cynnydd yn erbyn targedau yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion. Gan fod anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig yn wahanol iawn, dywed yr ysgolion hyn nad ydynt yn rhoi blaenoriaeth uchel i olrhain cyflawniadau disgyblion yn ôl ethnigrwydd.

106 Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn olrhain cynnydd unigol trwy brofion rheolaidd mewn gwahanol bynciau ac ystod o ddangosyddion asesu eraill i ragfynegi perfformiad unigol mewn TGAU a Safon Uwch. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o raglenni cyfrifiadur i gofnodi cynnydd disgyblion. Mae gan y rhaglenni hyn y cyfleusterau i alluogi ysgolion nid yn unig i olrhain cynnydd unigol ond hefyd i olrhain cynnydd gwahanol grwpiau yn yr ysgol.

107 Fodd bynnag, mae'r defnydd o systemau olrhain mewn ysgolion uwchradd yn amrywio'n sylweddol. Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn defnyddio data yn effeithiol i olrhain pob disgybl a thargedu cymorth ychwanegol, yn enwedig ar gyfer medrau sylfaenol, ond mewn llawer o ysgolion, nid yw'r defnydd o ddadansoddi data i dargedu cymorth a gwella canlyniadau wedi'i ddatblygu ddigon.

108 Mewn un ysgol uwchradd sy'n defnyddio systemau olrhain cyfrifiadurol yn effeithiol ac sydd â data manwl ar bob un o'i disgyblion, mae dadansoddiadau gofalus o ganlyniadau wedi dangos mai ychydig iawn o broblemau sydd o ran cyrhaeddiad disgyblion lleiafrifoedd ethnig. Mae'r dadansoddiad ysgol hwn hefyd wedi dangos bod disgyblion a oedd wedi cael cymorth Saesneg fel iaith ychwanegol wedi'u cymell yn arbennig o dda a'u bod ymhlith y rhai mwyaf llwyddiannus yn yr ysgol o ran cyrhaeddiad mewn TGAU a Safon Uwch.

109 Mewn llawer o awdurdodau lleol, rhoddir dadansoddiad o berfformiad diwedd cyfnod allweddol i ysgolion. Er bod y data hwn yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol y gall ysgolion feincnodi eu perfformiad yn ei herbyn, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dadansoddi perfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion, ac eithrio yn ôl rhyw. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu data ar berfformiad gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac yn cyhoeddi hwn ar y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Ddisgyblion. Nododd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2007-2008: "Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac ysgolion yn gwneud defnydd da o ystod o ddata perfformiad i ddadansoddi perfformiad grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni".

110 Prin yw'r ysgolion sy'n defnyddio data i nodi tueddiadau yng nghyfraddau cyrhaeddiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig, neu roi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain. Lle dangoswyd patrymau, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â thanberfformio ymhlith disgyblion sy'n fechgyn gwyn eu croen yn hytrach na thanberfformio gan ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig.

111 O'i gyferbynnu, mewn un ysgol uwchradd sydd â niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, cynhelir dadansoddiad blynyddol o gyflawniad disgyblion fel rhan o broses hunanarfarnu'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o gyfraddau cyrhaeddiad disgyblion lleiafrifoedd ethnig o'i gymharu â'r rheiny o grwpiau nad ydynt yn lleiafrifol. Mae cyfraddau cyrhaeddiad cyffredinol disgyblion lleiafrifoedd ethnig dros y blynyddoedd diwethaf wedi cymharu'n ffafriol â chyfraddau cyrhaeddiad y rheiny o grwpiau nad ydynt yn lleiafrifol yn yr ysgol. O'i gymharu â data'r awdurdod lleol, dangosir bod disgyblion lleiafrifoedd ethnig yr ysgol yn cyflawni safonau cryn dipyn yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol.

112 Mae llawer o achosion lle mae disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru wedi ennill ystod dda o gymwysterau yn llwyddiannus, gan alluogi iddynt gael mynediad at addysg bellach ac addysg uwch a/neu'r gyrfaoedd o'u dewis, yn unol â'r llwybrau maent yn eu dewis.

Presenoldeb

113 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno targedau presenoldeb ar gyfer pob ysgol. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a'r effaith a gaiff presenoldeb gwael ar gyrhaeddiad disgyblion.

114 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn awr yn monitro cyfraddau presenoldeb pob un o'u disgyblion yn rheolaidd. Mae ganddynt ystod o fesurau i oresgyn presenoldeb gwael ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag ef. Mae llawer o ysgolion hefyd yn gwobrwyo presenoldeb da. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion neu awdurdodau lleol sy'n edrych ar dueddiadau yng nghyfraddau presenoldeb grŵp lleiafrifoedd ethnig.

115 Mewn rhai ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae gwyliau estynedig i ymweld â theuluoedd dramor yn aml yn rheswm dros gyfraddau presenoldeb gwael. Mewn rhai ysgolion, pan fydd disgyblion yn absennol am gyfnodau estynedig, darperir pecynnau gwaith yn aml ar gyfer disgyblion er mwyn galluogi rhywfaint o barhad yn eu hastudiaethau. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion eraill, ni wneir unrhyw drefniadau o'r fath, ac mae disgyblion ar ei hôl hi â'u hastudiaethau o ganlyniad.

116 Yn yr arfer orau, mewn rhai ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae staff yn gweithio gyda'r gymuned i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac effeithiau absenoldeb estynedig ar gyrhaeddiad disgyblion. Er enghraifft, mewn un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi, rhaid i rieni sy'n dymuno mynd ar wyliau teuluol estynedig gyfarfod â'r pennaeth a gofynnir iddynt wylio fideo yn eu mamiaith, yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da. Rhoddir gwybod i rieni bod absenoldebau dros 10 diwrnod yn cael eu marcio fel absenoldeb anawdurdodedig. Mae'r weithdrefn hon yn dechrau cael effaith gadarnhaol, gyda nifer gynyddol o deuluoedd yn dechrau trefnu ymweld â theulu dramor yn ystod y gwyliau ysgol.

117 Mewn ysgol gynradd arall sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion sy'n sipsi deithwyr, mae presenoldeb gwael wedi lleihau wrth i gymuned y sipsi deithwyr ddod yn fwy sefydlog. Mae nifer o rieni wedi cael swyddi y tu allan i'r gymuned ac yn dechrau gweld gwerth cyfnodau addysg di-dor. Mae'r teithio wedi lleihau ac mae'r teuluoedd sy'n parhau i deithio yn tueddu i wneud hyn yn ystod gwyliau'r haf. Mae hyn wedi cael effeithiau cadarnhaol iawn ar gyfraddau presenoldeb disgyblion ac, yn sgil hynny, ar ganlyniadau.

118 Dywed y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig nad oes ganddynt lawer o bryderon yngyhylch presenoldeb disgyblion lleiafrifoedd ethnig. Mae gan ysgolion strategaethau da ar waith i oresgyn presenoldeb gwael unrhyw ddisgybl yn yr ysgol. Defnyddir ystod o fesurau yn debyg i'r mesurau hynny sydd ar waith mewn ysgolion cynradd.

119 Dywedodd rhai ysgolion yr ymwelwyd â nhw eu bod yn cydnabod y gallai disgyblion fod yn absennol am resymau crefyddol neu ddiwylliannol a'u bod yn sensitif i'r anghenion hyn. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd lle mae disgyblion o'r gymuned Nepalaidd, mae llywodraethwyr wedi awdurdodi absenoldeb ar gyfer gwyliau crefyddol Dasain a Tihar.

Lle mae cyfraddau cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn dda:

- mae systemau cadarn ar waith i olrhain cynnydd unigol pob un o'r disgyblion, gan gynnwys yn ôl grŵp lleiafrifoedd ethnig;
- mae ysgolion yn defnyddio data yn dda i olrhain cynnydd grwpiau o ddisgyblion a nodwyd, sydd mewn perygl o dangyflawni;
- caiff data ei ddadansoddi'n ofalus i nodi lle mae angen cymorth ychwanegol a rhoddir ystod o strategaethau ar waith i fynd i'r afael â hyn;
- caiff effeithiolrwydd systemau cymorth ei fonitro yn ôl eu heffaith ar berfformiad disgyblion;
- ar y cyd â swyddogion lles addysg a gweithwyr cymorth ymddygiad, caiff presenoldeb pob un o'r disgyblion ei olrhain yn ofalus a gweithredir yn gyflym i fynd i'r afael â materion presenoldeb isel gyda disgyblion a'u teuluoedd; a
- lle mae materion presenoldeb ymhlith disgyblion lleiafrifoedd ethnig yn sgil gwyliau teuluol estynedig dramor, mae ysgolion yn gweithio gyda'u cymunedau i leihau effaith hyn ar gyflawniad disgyblion.

Arweinyddiaeth ysgolion ac awdurdodau lleol

120 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am gydraddoldeb hiliol a/neu gyfle cyfartal. Fodd bynnag, dim ond mewn ysgolion sydd â niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig y rhoddir proffil uchel i'r rôl hon. Dywedodd un disgybl a gyfwelwyd: *"mae ein pennaeth yn cerdded o gwmpas yr ysgol llawer i weld beth sy'n digwydd. Mae'n berson hawdd mynd ati ac mae ei sgyrsiau yn y gwasanaeth yn ein cymell ac yn gwneud i ni feddwl go iawn am faterion fel hiliaeth a chyfle cyfartal. Mae'n bwysig iawn gwneud yn siwr bod pawb yn cael eu trin yn deg a bod hyn yn digwydd yn yr ysgol hon".*

121 Yn y rhan fwyaf o ysgolion sydd â niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, mae cyrff llywodraethol yn sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei chyfrifoldeb i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, a'r pennaeth neu aelod o'r uwch dîm rheoli sy'n gyfrifol am ymdrin ag achosion sy'n destun hiliaeth ac aflonyddwch hiliol.

122 Mae gan aelodau eraill o staff yn aml gyfrifoldeb dirprwyedig am drefnu cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod hyn yn cael ei addysgu ar draws yr ysgol i ddatblygu agweddau a gwerthoedd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb.

123 Mae gan arweinwyr pwnc ar gyfer addysg grefyddol yn aml gyfrifoldeb dirprwyedig i sicrhau bod pob gwers yn hyrwyddo ac yn parchu gwerth safbwyntiau gwahanol a bod barnau ystrydebol yn cael eu harchwilio mewn ffordd wrthrychol a pherthnasol i gael gwared ar rwystrau.

124 Mewn ysgolion lle nad oes llawer o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, os o gwbl, nid yw'r rolau hyn yn cael eu diffinio'n glir bob tro, ond mae arfer wirioneddol mewn ysgolion i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cydraddoldeb yn aml yn dda.

125 Dim ond mewn ysgolion lle mae niferoedd sylweddol o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig y rhoddir blaenoriaeth uchel yn gyson i ddatblygu ymwybyddiaeth staff o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb trwy ddarparu hyfforddiant. Yn yr ysgolion hyn, caiff hyfforddiant ei ddarparu yn aml gan staff cymorth lleiafrifoedd ethnig yr awdurdod lleol, er enghraifft, ar amrywiaeth ac aml-ddiwylliannaeth a'r heriau sy'n wynebu ysgolion aml-hil.

126 Nifer fach iawn o ysgolion sydd â niferoedd bach o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig sydd wedi cael hyfforddiant trwy eu hawdurdodau lleol, ond nid yw llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol yn ystyried hyn yn flaenoriaeth. Mewn niferoedd bach o ysgolion lle nad oedd hyfforddiant ar gael trwy'r awdurdod lleol, mae ysgolion wedi troi at awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle mae niferoedd uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig i ddarparu hyfforddiant arfer orau ar eu cyfer.

127 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut mae un awdurdod lleol wedi codi ymwybyddiaeth mewn llawer o'i hysgolion am faterion amlhiliol ac yn disgrifio'r effaith a gaiff ei strategaethau ar ymddygiad hiliol a chyflawniad disgyblion.

Ymagwedd effeithiol awdurdod lleol at amrywiaeth a chynhwysiad

Cyd-destun: Mae gan un awdurdod lleol yn ne ddwyrain Cymru niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig mewn llawer o'i ysgolion.

Strategaeth: I godi ymwybyddiaeth ysgolion am bwysigrwydd arfer gynhwysol, mae'r awdurdod hwn wedi datblygu gwobr cynhwysiad a chydraddoldeb heriol, wedi'i seilio ar fodel hunanarfarnu sy'n gysylltiedig â fframwaith arolygu Estyn. Mae'n cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau ysgolion lle mae cynhwysiad a chyfle cyfartal wedi cael eu hymgorffori'n gadarn yn niwylliant ac ethos yr ysgol.

Gweithredu: Mae'r wobr yn annog ysgolion i asesu'r ffyrdd y maent:

- yn hyrwyddo cyfle cyfartal;
- yn cefnogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth;
- yn hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl; ac
- yn ymdrin â materion yn ymwneud â bwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu.

Oherwydd bod y wobr wedi'i seilio'n fras ar thema 'cydraddoldeb' yn hytrach na 'chydraddoldeb hiliol' yn unig, mae ysgolion wedi croesawu hyn fel cyfrwng hunanasesu mwy cyffredinol i archwilio eu harfer bresennol a chynllunio ar gyfer gwella yn y dyfodol i ddangos eu hymrwymiad i ragoriaeth addysgol ar gyfer pob disgybl.

Canlyniadau: Mae un ysgol uwchradd sydd wedi ennill y wobr hon wedi cael graddau 1 am bob un o'r saith cwestiwn allweddol yn ystod arolygiad Estyn yn ddiweddar. Fe wnaeth gweithio tuag at y wobr hon gyfrannu at ei chanlyniadau arolygu.

Fel rhan annatod o'i ethos ac arfer o ran cynhwysiad, mae'r awdurdod hwn yn gwneud defnydd da iawn o'i ddata monitro ar gyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig, i nodi tanberfformio a rhoi strategaethau ymyriad effeithiol ar waith mewn ysgolion lle mae'r rhain yn broblemau.

Yn ychwanegol, caiff achosion hiliol sy'n cael eu hadrodd gan ysgolion eu dadansoddi'n ofalus, a lle bydd patrymau yn ymddangos, targedir ymyriad a hyfforddiant mewn ysgolion penodol. Caiff effaith yr ymyriadau hyn ei monitro'n agos. Y canlyniad fu archwilio'n fanylach i faterion cydraddoldeb mewn nifer o ysgolion lle nodwyd problemau, sy'n arwain at fwy o oddefgarwch a gwerthfawrogi gwahaniaethau.

128 Mewn un ysgol sy'n gwasanaethu cymuned sipsi deithwyr sefydledig, mae'r awdurdod lleol wedi dirprwyo ei gyllid allymestyn ar gyfer cymuned y sipsiwn i'r ysgol hon, i drefnu darpariaeth ar gyfer pob ysgol yn yr awdurdod. Mae staff yn yr ysgol

wedi datblygu arbenigedd dros sawl blwyddyn wrth ddatblygu cysylltiadau cymunedol da. Defnyddir yr arbenigedd hwn gan athrawon a gweithwyr cymorth o'r ysgol i ddarparu ystod o hyfforddiant ar draws yr awdurdod a ledled Cymru ar gyfer ysgolion sy'n gweithio gyda disgyblion sy'n sipsi deithwyr a'u teuluoedd.

129 Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod cymorth awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion mewn cydraddoldeb hiliol wedi'i gyfyngu'n bennaf i lunio polisi model. Mae'r awdurdodau lleol hynny sydd â niferoedd mawr o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol yn rhoi mwy o gymorth trwy godi ymwybyddiaeth staff ysgol am yr heriau sy'n wynebu ysgolion aml-hil, er enghraifft. Mae lleiafrif o ysgolion mewn ardaloedd nad oes ganddynt lawer o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig, os o gwbl, yn credu mai ychydig iawn o arwyddocâd sydd gan addysg cydraddoldeb hiliol iddyn nhw.

130 Nid yw awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru bob amser yn rhoi cefnogaeth i ysgolion i sicrhau bod cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori'n dda yn eu cenhadaeth a'u harferion. Nid yw llawer o awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai sydd â niferoedd bach o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, yn ystyried bod hyn yn flaenoriaeth iddynt ar hyn o bryd.

Lle mae arweinwyr ysgolion ac awdurdodau lleol yn datblygu arfer orau, mae'r nodweddion canlynol i'w gweld yn aml:

- mae ysgolion yn pennu unigolion i fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar gydraddoldeb hiliol ac mae cyrff llywodraethol yn rhagweithiol wrth sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol;
- mae hyfforddiant effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer pob aelod staff i godi eu hymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac i sicrhau dulliau cyson;
- mae awdurdodau lleol yn rhagweithiol wrth gynnig amrywiaeth o gefnogaeth i ysgolion er mwyn eu helpu i ddatblygu a rhannu arfer dda; ac
- mae awdurdodau lleol yn monitro perfformiad ysgolion yn weithredol ar draws amrywiaeth o ddangosyddion ac yn ymyrryd i gynnig cefnogaeth a her lle bo'r angen.

131 Drwy'r adroddiad hwn, mae cyfres o astudiaethau achos yn rhoi enghreifftiau o'r amrywiaeth o arfer dda sy'n cael ei datblygu mewn ysgolion er mwyn sicrhau arfer gynhwysol a chyfle cyfartal i bob disgybl.

132 Mae'r astudiaeth achos derfynol isod yn dathlu llwyddiant dwy fenyw ifanc o'r gymuned sipsi deithwyr. Yn draddodiadol, nid yw aelodau'r gymuned hon wedi rhoi llawer o werth ar addysg uwchradd. Mae llwyddiant y ddwy fenyw ifanc hyn felly'n deyrnged i'w hymdrech a'u penderfyniad personol ac i lwyddiant yr ysgolion y buont yn eu mynychu wrth gyfrannu at newid mewn agwedd eu cymunedau tuag at addysg uwchradd ac addysg uwch.

Dathlu canlyniadau llwyddiannus i ddysgwyr

Cyd-destun: Mae'r astudiaeth achos hon yn ymwneud â dau aelod o'r gymuned sipsi deithwyr, sydd wedi elwa ar addysg bellach ac addysg uwch yn ne orllewin Cymru.

Strategaeth: Mae'r ddwy fenyw ifanc hyn wedi cael eu hannog gan yr ysgolion y buont yn eu mynychu i gyflawni cymwysterau academaidd a galwedigaethol ac i fynd ar drywydd gyrfaoedd llwyddiannus iddyn nhw eu hunain.

Gweithredu: Ar ôl ennill gradd, bu un cyn-ddisgybl yn gweithio fel cynorthwyydd dysgu mewn ysgol gynradd sy'n darparu ar gyfer nifer fawr o ddisgyblion sipsi deithwyr. Mae'r myfyriwr arall wedi ennill cymwysterau mewn iaith arwyddion ac astudiaethau busnes ac, ar hyn o bryd, mae'n astudio am CGC Lefel 3, tra'n gweithio gyda disgyblion babanod yn yr un ysgol y buodd yn ei mynychu ar lefel gynradd ac uwchradd.

Canlyniadau: Enillodd y fenyw ifanc gyntaf y medrau a'r hyder angenrheidiol, trwy gefnogaeth yn yr ysgol, i fynd ymlaen i weithio yn yr un ysgol fel athrawes gynorthwyol heb gymhwyso, ym maes anghenion addysgol arbennig.

Yn ystod ei gyrfa ysgol, daeth yr ail fenyw ifanc yn gadeirydd fforwm ieuenctid yr awdurdod lleol ac yna'n gynrychiolydd lleiafrifoedd ethnig ar fforwm ieuenctid Draig Ffynci Llywodraeth y Cynulliad. Ers hynny, mae hi wedi mynd ymlaen i fod yn eiriolydd uchel ei phroffil ac effeithiol ynghylch safbwyntiau sipsi deithwyr ifanc o ran materion cydraddoldeb. Mae ei gwaith, ymysg pethau eraill, wedi cynnwys cyfarfodydd ag aelodau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymweliad â Senedd Ewrop ym Mrwsel i drafod hawliau sipsi deithwyr. Y llynedd, derbyniodd 'Wobr Cyflawniad Person Ifanc Prydeinig' gan Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol.

133 Er bod yr adroddiad hwn yn amlygu sawl enghraifft o arfer dda mewn ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, mae llawer i'w wneud o hyd mewn nifer o awdurdodau lleol ac ysgolion ledled Cymru.

Cyfeiriadau

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi 2007-2008, Estyn (2008)

Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a Saesneg fel iaith ychwanegol. Estyn (2005)

Cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn ysgolion yng Nghymru. Estyn (2005)

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth yn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru. ACCAC (2001)

Dysgu i Bawb: Safonau ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol mewn Ysgolion. Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (2000)

Ethnigrwydd ac Addysg: Y Dystiolaeth am Ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig 5-16 oed, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2006)

Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7-19 oed yng Nghymru. APADGOS (2008)

Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG). Defnyddio Adnoddau'n Effeithiol. Estyn (2003)

Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion. Arolwg o arfer effeithiol. Estyn (2006)

Templed Asesu ar gyfer Polisïau Cydraddoldeb Hiliol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Ysgolion yng Nghymru a Lloegr (2005)

Y Cyfnod Sylfaen – Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant APADGOS (2007)

Y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol – Canllaw i Ysgolion (anstatudol) Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (2002)

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Rhona Edwards AEM	Arolygydd Arwain
Sarah Morgan AY	Arolygydd Tîm
Gwen Davies AY	Arolygydd Tîm
Iwan Roberts AY	Arolygydd Tîm